Datblygu Busnes
Business Development

Inspiring Learning,
Enriching Lives, Delivering Success

Gwobr Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf Pediatreg (Rhan-Amser)

Mae’r cwrs hwn ar gyfer unigolion sydd â chyfrifoldeb am ofal plant a babanod ar lefel broffesiynol sy’n darparu’r wybodaeth a’r cymhwysedd ymarferol i ddelio ag ystod o sefyllfaoedd cymorth cyntaf pediatreg.

Mae’r cymhwyster hwn yn cwrdd â gofynion Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar.

Mae’r cymhwyster yn ddilys am dair blynedd o’r dyddiad cyflawni. Argymhellir bod y dysgwr yn mynychu hyfforddiant gloywi blynyddol. Bydd angen i’r dysgwr gwblhau’r cwrs llawn eto i wneud cais am dair blynedd arall.

Gofynion Mynediad

Mae'r cymhwyster ar gael i ddysgwyr 16 oed neu'n hyn.

Argymhellir y dylai dysgwyr feddu ar o leiaf Lefel 1 mewn llythrennedd neu gyfwerth i gyflawni'r cymhwyster hwn.

Rhagolygon Gyrfa

Rydym hefyd yn cynnig cymwysterau mewn diogelu, iechyd a diogelwch, diogelwch bwyd a chymorth cyntaf ar gyfer iechyd meddwl pe bai dysgwyr yn dymuno arallgyfeirio.

Modiwlau’r cwrs

Mae’r cwrs hwn yn cwmpasu’r pynciau a ganlyn:

– Deall rôl a chyfrifoldebau’r cynorthwyydd cyntaf pediatreg
– Yn gallu asesu sefyllfa frys yn ddiogel
– Yn gallu darparu cymorth cyntaf i faban a phlentyn sydd wedi cael sioc drydanol
– Yn gallu darparu cymorth cyntaf i faban a phlentyn sy’n tagu
– Yn gallu darparu cymorth cyntaf i faban a phlentyn â gwaedu allanol, anaffylacsis neu sy’n anymatebol

– Gwybod sut i ddarparu cymorth cyntaf i faban neu blentyn sy'n dioddef o sioc
– Gwybod sut i ddarparu cymorth cyntaf i faban neu blentyn gyda brathiadau, pigiadau a mân anafiadau
– Yn gallu darparu cymorth cyntaf i faban neu blentyn sydd ag amheuaeth o anafiadau i esgyrn, cyhyrau a chymalau
– Yn gallu darparu cymorth cyntaf i faban neu blentyn yr amheuir ei fod yn dioddef o anafiadau i'w ben a'i asgwrn cefn
– Gwybod sut i ddarparu cymorth cyntaf i faban neu blentyn gyda chyflyrau sy'n effeithio ar y llygaid, y clustiau a'r trwyn
– Gwybod sut i ddarparu cymorth cyntaf i faban neu blentyn sydd â chyflwr meddygol acíwt neu salwch sydyn
– Gwybod sut i ddarparu cymorth cyntaf i faban neu blentyn sy'n profi eithafion tymheredd y corff
– Gwybod sut i ddarparu cymorth cyntaf i faban neu blentyn gyda llosgiadau a sgaldiadau
– Gwybod sut i ddarparu cymorth cyntaf i faban neu blentyn yr amheuir ei fod yn wenwyno

Asesiad

Asesir y cymhwyster trwy arddangosiad ymarferol, cwestiynu llafar ac asesiad ysgrifenedig.

Costau Ychwanegol

Mae cyllid ar gael, yn amodol ar gymhwysedd, cysylltwch â ni i ddarganfod mwy.

DULL ASTUDIO
PT

LLEOLIAD
Coleg Castell-nedd - 01639 648000

HYD Y CWRS
2D